
ffilm CYMRU WALES



# PRIF WEITHREDWR

## PECYN SWYDD

# CYNNWYS


**Croeso** **03**

**Sut i Wneud Cais** **07**

Cymorth Mynediad 08

Ar ôl i chi wneud cais 09

**Swydd-ddisgrifiad** **10**

Prif Gyfrifoldebau 11

Cyfrifoldebau Pellach 12

Sgiliau, Galluoedd a Phriodoleddau Personol 13




# CROESO

Diolch i chi am eich diddordeb yn y swydd arweinyddiaeth uwch gyffrous hon.

Mae Ffilm Cymru Wales yn galw am Brif Weithredwr dychmygus sy'n cael eu gyrru gan werthoedd ac sy'n brofiadol ar reoli newid. Rydym yn chwilio am rywun sydd â chymwysterau arweinyddol cryf ac sydd â'r dewrder i edrych ar heriau sectoraidd â llygaid ffres.

Bydd y Prif Weithredwr newydd yn cynnig egni a gweledigaeth i arwain Ffilm Cymru Wales i gam nesaf ei esblygiad. Mae hon yn swydd arweinyddiaeth uwch heriol ond yn un a fydd yn rhoi boddhad go iawn.

Mae Ffilm Cymru yn gwmni arloesol sy'n cael ei yrru gan yr uchelgais i dyfu sector ffilm cynhwysol i bawb. Mae staff y cwmni yn angerddol am fyd ffilm ac wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fyd ffilm yng Nghymru ac ar ran Cymru.




ffilm CYMRU WALES

Wedi'i sefydlu yn 2006, Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru. Mae'n gwmni buddiannau cymunedol. Ers 2006, mae'r sector cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol iawn. Rydym yn falch o'r rôl rydym wedi'i chwarae wrth feithrin talent gwneud ffilmiau yng Nghymru, ac eiriol dros y sector ffilm yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym am i bobl ledled Cymru gael mynediad at ffilmiau gwych sy'n darparu ar gyfer pob chwaeth, cefndir a diddordeb, a chynnig ffilmiau sy'n herio, sy'n rhoi adloniant ac sy'n cynnig llawenydd. Ac sy'n cyfoethogi ein bywyd diwylliannol drwy ein helpu i wneud synnwyr o'r byd.

Cafodd pandemig COVID19 effaith ddofn ar gynhyrchu ffilmiau yng Nghymru. Teimlwyd yr effaith yn ddwys hefyd ar draws y gwyliau a'r lleoliadau arddangos rydym yn eu cefnogi yn ogystal â chyfleoedd ac anghenion o ran llafur medrus.



ffilm CYMRU WALES

Mae'r camau dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddychwelyd i gynhyrchu ffilmiau'n brysur wedi cael croeso gwirioneddol yng Nghymru fel mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae wedi cyflwyno heriau newydd gan gynnwys tarfu ar fodelau presennol o gyllido ffilmiau a chystadleuaeth am weithlu medrus mewn marchnad lafur gyfyngedig. Mae'r sector arddangos ffilmiau yn parhau i gael ei effeithio'n fawr gan newid ym mhatrymau ymddygiad y gynulleidfa.

Os cewch eich penodi'n Brif Weithredwr, bydd angen i chi gydweithio ag ystod eang o randdeiliaid i fynd i'r afael â'r heriau hyn a nodi atebion creadigol.

Byddwch yn ymuno â Ffilm Cymru Wales ar adeg o dwf cyflym yn y cwmni. Mae'r cwmni wedi tyfu o fod yn dîm bach iawn i fod yn gwmni canolig ei faint mewn cyfnod byr sy'n golygu bod yna heriau o ran rheoli ynghyd â chyfleoedd newydd go iawn i gefnogi'r sector ffilm yng Nghymru ac ar ran Cymru.

A chithau'n dda gyda phobl a strategaeth, byddwch yn berson dychmygus, uchelgeisiol a chydweithredol eich ymagwedd. Byddwch wedi ymrwymo i hybu sector ffilm i bawb, boed hynny fel aelodau o'r gynulleidfa, gwneuthurwyr ffilmiau, neu'r sawl sy'n arddangos.

Mae ein Cynllun Strategol 2018-2024 i'w weld fan yma. Mae Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2024-2030 yn nwylo Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd fel rhan o'u Hadolygiad Buddsoddi. Bydd ein Prif Weithredwr newydd yn arwain ar gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol hyn.

Mae ein gwaith yn mapio'n agos i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector. Rydym yn falch o'n gwaith ym maes sgiliau a hyfforddiant ac rydym wedi ymrwymo i werthoedd gwaith teg.

Rydym yn dirprwyo ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn derbyn arian y Loteri Genedlaethol gan Sefydliad Ffilm Prydain i redeg Rhwydwaith BFI Cymru. Yn ddiweddar daethom yn ddirprwy dros gyllid Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth er mwyn parhau i gryfhau'r diwydiant ffilm yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru Wales yn arloesol yn ei gydweithrediadau a'i fodelau ariannu. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethon godi arian drwy Media Cymru (Strength in Places UKRI) i gefnogi diwydiant sgrin gwyrddach ac adeiladu ar raglen waith Troed yn y Drws, gan chwalu rhwystrau economaidd-gymdeithasol i yrfa ym myd y sgrin.

Mae ein gwerthoedd yn golygu ein bod yn edrych tuag at effaith a budd hirdymor. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru a'r diwydiant ffilm rhyngwladol sy'n rhannu ein hymrwymiad i sector ffilm cynhwysol a chynaliadwy i bawb.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais, ac mae croeso i chi ei gyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg.

**Ruth McElroy**
**Cadeirydd, Ffilm Cymru Wales**



ffilm CYMRU WALES

# SUT I WNEUD CAIS

Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol i Hayley Lau - **hayley@ffilmcymruwales.com** - yn nodi eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i amlinellu ym manyleb y person isod.

**Cyflwynwch eich cais erbyn**
**16:00, Dydd Mercher 16 Awst 2023.**

Nid yw Ffilm Cymru Wales yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.



ffilm CYMRU WALES

# CYMORTH MYNEDIAD

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Byddwn yn cynnig sicrwydd o gyfweliad i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.



Cysylltwch â Hayley Lau ar
**hayley@ffilmcymruwales.com**
i drafod eich gofynion
cyn gwneud cais.

ffilm CYMRU WALES

# AR ÔL I CHI WNEUD CAIS

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn ‘gwell gen i beidio â dweud’. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru Wales yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

Gall addasiadau recriwtio gael eu gwneud ar unrhyw gam o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr. Cysylltwch â hayley@ffilmcymruwales.com i drafod.



ffilm CYMRU WALES

disability confident EMPLOYER

We are a Living Wage Employer

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| Swydd: | **Prif Weithredwr.**<br>**Mae hon yn swydd amser llawn, barhaol.** |
| Yn adrodd i: | **Bwrdd y Cyfarwyddwyr.** |
| Lleoliad: | **Caerdydd yw'r brif swyddfa a bydd gofyn teithio'n achlysurol yn y DU ac yn rhyngwladol.** |
| Dyddiad cau: | **16:00, Dydd Mercher 16 Awst 2023.** |
| Dyddiad cyfweliadau: | **Dydd Llun, 11 Medi 2023.** |
| Cyflog: | **£75,600 - £84,000 y flwyddyn, ynghyd â phensiwn.**<br>**Rydym yn defnyddio system gyflog 5 pwynt a byddwn fel arfer yn penodi ar bwynt 1 o'r radd ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.** |
| Gwyliau blynyddol: | **Rydym yn cynnig 28 diwrnod o wyliau blynyddol yn ychwanegol at Wyliau Cyhoeddus.** |



# PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Drwy ein Bwrdd, ein Tîm Gweithredol a'n partneriaid, darparu a chynnull ystod eang o arbenigedd o'r sector ffilm a meysydd cysylltiedig i nodi anghenion a chyfleoedd yn gyson er mwyn creu twf cynaliadwy yn y sector gan sicrhau budd i Gymru.
- Meithrin perthynas gref a chynhyrchiol â rhanddeiliaid allweddol
- Sefydlu a datblygu nodau strategol a busnes y cwmni, a'i gynllun i'w cyflawni, gan ddilyn proses reolaidd i'w hadolygu a'u hadnewyddu.
- Goruchwylio uwch dîm gweithredol arbenigol a galluog a'u cefnogi i arwain eu timau i gyflawni gweithgarwch sy'n hybu nodau strategol y cwmni.
- Sefydlu naws o ddiwylliant cynhwysol i'r cwmni sy'n ysbrydoli ac yn cynorthwyo'r tîm gweithredol i gyflawni yn erbyn nodau strategol y cwmni.
- Goruchwylio sefydlogrwydd ariannol a thwf parhaus y cwmni, gan gynnwys cysylltu â chyllidwyr sylfaenol ein gwaith a nodi a hybu cyfleoedd cyllido newydd sy'n ategu ein sefyllfa strategol a gweithredol.
- Bod yn eiriolwr blaenllaw dros y sector, gan gyfathrebu'n effeithiol ag ystod eang o ddylanwadwyr i sicrhau dealltwriaeth o werth, budd ac anghenion y sector, a bod yr amodau ar gyfer newid cadarnhaol yn cael eu datblygu.



# CYFRIFOLDEBAU PELLACH Y SWYDD

- Arweinyddiaeth a rheolaeth strategol.
- Datblygu, gweithredu, adolygu ac diwygio cynlluniau strategol a gweithredol, sy'n cynhyrchu canlyniadau llwyddiannus.
- Llwyddo i dderbyn cyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys grantiau a chontractau, a goruchwylio'r gwaith o'i reoli.
- Rheoli a bod yn atebol am gyllidebau sylweddol, adroddiadau ariannol a phenderfyniadau ariannu.
- Rheoli risg yn effeithiol ac yn gyfrannol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, rheoliadau a chamau archwilio perthnasol ac arferion gorau o ran llywodraethu corfforaethol.
- Gweithredu fel 'Awdurdod dirprwyedig' neu gynrychiolydd a enwir fel arall.
- Gweithio gyda Thîm Rheoli i nodi, cynllunio a gweithredu prosiectau a chyfleoedd masnachol newydd.
- Creu amgylchedd sy'n annog perfformiad gwych, morâl cadarnhaol, a lles.
- Adeiladu cynghreiriau, partneriaethau a pherthnasoedd gwaith effeithiol â sefydliadau, rhanddeiliaid a dylanwadwyr allanol i gyflawni canlyniadau.
- Gweithio'n effeithiol gyda Bwrdd y Cyfarwyddwyr i sicrhau llwyddiant y sefydliad.



# SGILIAU, GALLUOEDD A PHRIODOLEDDAU PERSONOL

Mae'r rôl hon yn galw am y canlynol.

**Meini Prawf Hanfodol:**

- Wedi ymrwymo i gefnogi sector ffilm dwyieithog.
- Dealltwriaeth o sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a'u rhwymedigaethau rheoleiddiol.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, ac yn gallu cyfathrebu'n briodol ag ystod eang o bobl o amryw gefndiroedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ar bob lefel.
- Siaradwr cyhoeddus hyderus a pherswadiol.
- Y gallu i reoli llwyth gwaith amrywiol a heriol.
- Y gallu i ysgogi staff a rheoli newid yn effeithiol.
- Agored, tryloyw, agos-atoch a gweladwy.
- Sgiliau rhwydweithio a dylanwadu, ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar lefel uwch.
- Yn dangos menter a hunanreolaeth, ac yn wydn.
- Dangos deallusrwydd emosiynol da.
- Yn gymwys mewn amrywiaeth o becynnau TG modern.

**Meini Prawf Dymunol:**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Profiad a dealltwriaeth o sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a rhwymedigaethau rheoleiddiol cysylltiedig.
- Dealltwriaeth ac arbenigedd yn y sector ffilm neu ddiwydiannau creadigol cysylltiedig.
- Profiad o eiriol dros y diwydiant ffilm neu ddiwydiant creadigol cysylltiedig gan gynnwys ar lefel y llywodraeth.

Ffilm Cymru Wales
Uned 6, Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd
CF11 6BH

@FfilmCymruWales
www.ffilmcymruwales.com

